Microsglodi eich ci

Mae microsglodio eich ci yn sicrhau y gellir ei adnabod yn rhwydd os aiff ar goll, a gellir ei ddychwelyd i chi yn hytrach na dod i ben mewn cybiau.

Fe gollir miloedd o gŵn bob blwyddyn a fyddan nhw byth yn cael eu haduno â'u perchnogion. Drwy ficrosglodi eich ci byddwch yn cysylltu eich ci â chi'n barhaol.

Ers Ebrill 2016 mae'n gofyniad gyfreithiol i Microsglodi pob ci.

Sut mae o'n gweithio?
Mae microsglodi'n golygu mewnsaethu sglodyn bach iawn, tua maint gronyn o reis, i war eich ci. Mae'r microsglodyn â'i god unigryw ei hun y gellir ei ddarllen gan sganiwr. Mae'r côd yn cael ei roi ar gronfa ddata genedlaethol, a'i gysylltu â manylion y perchennog.

Os deuir o hyd i gi crwydr mewn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig fe gaiff ei sganio, ac os oes microsglodyn yn bresennol gellir paru'r cod â'r gronfa ddata. Bydd hyn yn nodi'r perchennog, a gellir dychwelyd y ci.

Ym mhle y gallaf i gael microsglodi fy nghi?
Gall y rhan fwyaf o bractisau milfeddygon yn y Deyrnas Unedig ficrosglodi eich ci, ynghyd â nifer cynyddol o grwpiau lles anifeiliaid, yn cynnwys ein contractwr cynelu - Achub Anifeiliaid Gogledd Clwyd. Byddwn hefyd yn cynnal digwyddiadau achlysurol ledled y Sir i hyrwyddo microsglodi.

Ydi o'n brifo?
Does dim angen anaesthetig ac ni ddylai achosi dim mwy o anghyfforddusrwydd na brechiad safonol.

Beth os bydd fy manylion yn newid?
Gellir diwygio manylion perchennog yn hawdd ar y gronfa ddata. Byddwch chi'n derbyn gwybodaeth am sut i wneud hynny pan fydd eich ci'n cael ei ficrosglodi.

Mae fy nghi i'n gwisgo coler a thag, pam ddylwn i ei ficrosglodi hefyd?
Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i bob ci wisgo coler efo enw a chyfeiriad y perchennog wedi ei arysgrifio rywle arni pan fydd o mewn lle cyhoeddus. Nid yw microsglodi'n dileu'r gofyniad yma.

Ond, gellir tynnu neu dorri coler yn faleisus, a gall y tagiau syrthio i ffwrdd weithiau a mynd ar goll. Drwy ficrosglodi eich ci gallwch sicrhau y gellir adnabod eich manylion chi a'ch ci bob amser.

Faint fydd o'n ei gostio?
Gallwch ddisgwyl talu £5-£30 (dibynnu ar y filfeddyg) i ficrosglodi eich ci gan filfeddyg, ond mae ar gael yn rhatach gan wahanol sefydliadau elusennau anifeiliaid yn yr ardal.

I gael cyngor pellach ar ficrosglodi, cysylltwch â ni ar:

Llinell Cymraeg: 01824 706100

Llinell Saesneg: 01824 706101